**Cyf: LGH-14-02 (p.2)**

**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

Dyddiad: Dydd Mercher 30 Hydref 2002

Lleoliad: [**To be inserted**]

Teitl: Materion Tai a godwyd yn adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o'r iaith Gymraeg

**Pwrpas**

1. Rhoi manylion i'r Pwyllgor am y materion tai a godwyd yn adolygiad polisi'r Pwyllgor Diwylliant o'r iaith Gymraeg, "Ein hiaith: Ei dyfodol".

**Crynodeb/Argymhellion**

2. Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o'r materion tai a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor Diwylliant. Gwahoddir y Pwyllgor i gymeradwyo'r camau sy'n cael eu cymryd i ddatblygu'r gwahanol fentrau tai a restrir yn y papur.

**Amseru**

3. Bydd y papur hwn yn cael ei ystyried ar 30 Hydref 2002.

**Y cefndir**

4. Yn ei gyfarfod ar 10 Gorffennaf 2002, gwnaeth y Pwyllgor gais am bapur a fyddai'n rhoi sylw i'r materion tai a godwyd yn adolygiad polisi'r Pwyllgor Diwylliant o'r iaith Gymraeg, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni.

5. Ynghyd â llawer o gyrff eraill, cyflwynodd cynrychiolwyr y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai dystiolaeth i'r Pwyllgor Diwylliant fel rhan o'u hadolygiad. Cyflwynodd y Cadeirydd a'r Dirprwy Weinidog dros Lywodraeth Leol a Thai dystiolaeth i'r Pwyllgor Diwylliant ar 17 Ionawr ynghylch tai a'r iaith Gymraeg.

6. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad "A Bilingual Future: Dyfodol Dwyieithog" ym mis Gorffennaf 2002. Roedd y ddogfen yn nodi bwriadau cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi a hyrwyddo'r iaith. Yn dilyn "Dyfodol Dwyieithog", bydd y Gweinidog Diwylliant yn gwneud datganiad i'r Cynulliad ar 13 Tachwedd ynghylch y Cynllun Gweithredu i greu Cymru ddwyieithog. Bydd y Cynllun Gweithredu yn disgrifio'r amrywiaeth o fesurau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth y Cynulliad ar draws pob maes polisi - gan adlewyrchu'r dull cyfannol y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei ddefnyddio i ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg.

7. Mae'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Diwylliant ar dai a'r iaith Gymraeg wedi'u nodi isod:

a. Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn haws cael tai a gwaith i sicrhau cynaliadwyedd cymunedau, yn enwedig yn y cadarnleoedd Cymraeg.

b. Y gofynnir i'r Gweinidog [dros Gyllid a Llywodraeth Leol] ddod o hyd i ffyrdd o gryfhau'r cynllun Cymorth Prynu, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Dylai hyn gynnwys ystyried sicrhau codi'n sylweddol y terfyn presennol ar brisiau tai y mae'r cynllun yn gymwys ar eu cyfer, a chynnydd yn yr arian sydd ar gael ar gyfer y cynllun.

c. Er bod y Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod data ystadegol ar stoc tai yn cael ei gasglu, mae am bwysleisio bod angen arbennig am ddata o'r fath lle y canfyddir bod diffyg tai fforddiadwy.

d. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi cyflwyno "Pecynnau Croeso" i ddarpar-fewnfudwyr i Gymru, ond mae'n gofyn bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn craffu ar becynnau o'r fath yn ofalus cyn eu dosbarthu drwy amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys awdurdodau lleol, cyfreithwyr ac ysgolion. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru geisio sefydlu concordat gyda sefydliadau sy'n cynrychioli Gwerthwyr Tai er mwyn hwyluso'r broses o ddosbarthu pecynnau o'r fath.

e. Dylid annog yr Awdurdodau Lleol i ddefnyddio'r holl bwerau sydd ar gael iddynt, gan gynnwys pwerau tai a chynllunio, er mwyn sicrhau cartrefi i bobl leol, naill ai drwy brynu neu rentu, o fewn eu cymuned eu hunain; ond na wahaniaethir yn erbyn unrhyw un ar sail iaith, wrth ymarfer y pwerau hyn.

**Materion i'w hystyried**

8. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwerthfawrogi yn llawn bod yr iaith Gymraeg yn rhan hanfodol o fywyd y gymuned mewn sawl rhan o Gymru. Mae'n cydnabod hefyd fod ffyniant yr iaith yn dibynnu ar lawer o ffactorau, gan gynnwys addysg a'r gwaith sydd ar gael. Mae'r potensial gan bolisïau tai'r Cynulliad hefyd i helpu i gynnal a chefnogi'r iaith, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae llawer yn siarad Cymraeg. Ond dylid cydnabod mai prif swyddogaeth polisïau tai'r Cynulliad yw darparu llety i bobl y mae arnynt ei angen.

9. Mae'r Cynulliad yn cymell ei bartneriaid i gymryd materion iaith i ystyriaeth wrth ddatblygu strategaethau tai a chynllunio tai a gwasanaethau newydd. Ond wrth asesu'r angen am dai, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cytuno â'r Pwyllgor Diwylliant na ddylid gwahaniaethu rhwng ymgeiswyr ar sail gallu ieithyddol.

10. Dyma ystyriaeth fanwl o bob argymhelliad, a'r camau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd:

**Argymhelliad (a)**

**Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn haws cael tai a gwaith i sicrhau cynaliadwyedd cymunedau, yn enwedig yn y cadarnleoedd Cymraeg.**

Ymateb Llywodraeth y Cynulliad

10(a)(i) Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhyddhau £56.4 miliwn mewn Grant Tai Cymdeithasol i gynorthwyo'r gwaith o ddarparu tai fforddiadwy eleni (2002-03). Hefyd, bydd y £1.5 miliwn a ddarparwyd y llynedd fel arian ychwanegol yn unswydd er mwyn ategu'r cynllun Cymorth Prynu mewn ardaloedd gwledig ar gael eleni eto.

10(a)(ii) Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol fel darparwyr tai strategol yw asesu blaenoriaethau o ran defnyddio'r Grant Tai Cymdeithasol a ddarperir gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae hyn yn cyd-fynd â pholisi'r Cynulliad o ddirprwyo cyfrifoldeb i sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau lleol.

10(a)(iii) Y flwyddyn ariannol ddiwethaf, penderfynodd yr Awdurdodau Lleol y dylid defnyddio ychydig yn llai na £3 miliwn o'r Grant Tai Cymdeithasol, a ddarperir gan Lywodraeth y Cynulliad, ar gyfer Cymorth Prynu mewn ardaloedd gwledig. Dyrannwyd £4.3 miliwn eleni, a disgwylir i hyn arwain at tua 230 o fenthyciadau Cymorth Prynu mewn ardaloedd gwledig.

10(a)(iv) Yn ystod hydref 2002, mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno Gorchymyn Cynulliad i ymestyn nifer yr ardaloedd gwledig lle y mae yna gyfyngiadau ar yr Hawl i Gaffael a'r Hawl i Brynu er mwyn sicrhau bod tai cost isel ar gael i bobl leol. O gael ei gymeradwyo, byddai'r Gorchymyn yn dod i rym ddechrau 2003.

**Argymhelliad (b)**

**Y gofynnir i'r Gweinidog [dros Gyllid a Llywodraeth Leol] ddod o hyd i ffyrdd o gryfhau'r cynllun Cymorth Prynu, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Dylai hyn gynnwys ystyried sicrhau codi'n sylweddol y terfyn presennol ar brisiau tai y mae'r cynllun yn gymwys ar eu cyfer, a chynnydd yn yr arian sydd ar gael ar gyfer y cynllun.**

Ymateb Llywodraeth y Cynulliad

10(b)(i) Ym mis Gorffennaf (2002), sicrhaodd Llywodraeth y Cynulliad godiad o tua 10% ar derfynau prisiau prynu uchaf ar gyfer eiddo a gâi ei brynu dan y cynllun Cymorth Prynu. Mae'r Cynulliad yn barod i ystyried ceisiadau y tu hwnt i'r cyfyngiadau a gyhoeddwyd, ar sail teilyngdod. Mae'n bosibl hefyd y bydd y Cynulliad yn anwybyddu'r terfynau lle y bydd modd dangos nad oes unrhyw eiddo addas ar gael o fewn y terfynau lle y gellid disgwyl yn rhesymol i'r ymgeisydd brynu.

10(b)(ii) Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n cynnal adolygiad i asesu effeithiolrwydd y cynllun Cymorth Prynu mewn ardaloedd gwledig. Disgwylir i'r adolygiad gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

10(b)(iii) Rhoddwyd sylw i faterion ariannu eisoes yn yr ymateb i argymhelliad (a) uchod.

**Argymhelliad (c)**

**Er bod y Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod data ystadegol ar stoc tai yn cael ei gasglu, mae am bwysleisio bod angen arbennig am ddata o'r fath lle y canfyddir bod diffyg tai fforddiaddwy.**

Ymateb Llywodraeth y Cynulliad

10(c)(i) Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog yr awdurdodau lleol i gynnal Asesiadau o Anghenion Tai drwy ddarparu 50% o'r arian tuag at y costau. Dylai'r asesiadau fod o gymorth mawr o ran pwyso a mesur y galw lleol am dai fforddiadwy ar gyfer Cymorth Prynu ac i'w rhentu.

**Argymhelliad (d)**

**Mae'r Pwyllgor yn cefnogi cyflwyno "Pecynnau Croeso" i ddarpar-fewnfudwyr i Gymru, ond mae'n gofyn bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn craffu ar becynnau o'r fath yn ofalus cyn eu dosbarthu drwy amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys awdurdodau lleol, cyfreithwyr ac ysgolion. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru geisio sefydlu concordat gyda sefydliadau sy'n cynrychioli Gwerthwyr Tai er mwyn hwyluso'r broses o ddosbarthu pecynnau o'r fath.**

Ymateb Llywodraeth y Cynulliad

10(d)(i) Rhoddodd Llywodraeth y Cynulliad un swm cymorth grant (o arian llithriant yng nghyllideb Dai y flwyddyn ariannol ddiwethaf) i Fwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn sefydlu

gwefan a deunydd cyhoeddusrwydd cysylltiedig ar gyfer y Pecynnau Croeso. Caf ar ddeall nad yw'r wefan wedi cael ei rhoi ar waith yn llawn eto. Bydd Llywodraeth y Cynulliad a Bwrdd yr Iaith yn gallu gwerthuso llwyddiant y ddau brosiect unwaith y bydd y wefan wedi cael ei rhoi ar waith yn llawn.

**<u>Argymhelliad (e)</u>**

**Dylid annog yr Awdurdodau Lleol i ddefnyddio'r holl bwerau sydd ar gael iddynt, gan gynnwys pwerau tai a chynllunio, er mwyn sicrhau cartrefi i bobl leol, naill ai drwy brynu neu rentu, o fewn eu cymuned eu hunain; ond na wahaniaethir yn erbyn unrhyw un ar sail iaith, wrth ymarfer y pwerau hyn.**

<u>Ymateb Llywodraeth y Cynulliad</u>

10(e)(i) Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i roi cyngor ac arweiniad er mwyn cynorthwyo pobl leol i gael cartrefi (drwy brynu neu rentu) a byddwn yn annog ac yn cynghori'r awdurdodau lleol i ddefnyddio'r holl gyfryngau sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd er mwyn cyflawni hyn. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cytuno na ddylid gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un ar sail iaith, wrth ymarfer y pwerau hyn.

10(e)(ii) Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cyflwyno mwy o hyblygrwydd ar safonau datblygu a'r posibilrwydd y bydd grantiau haelach ar gael i gynorthwyo Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ymgymryd â chynlluniau anarferol o ddrud, e.e. mewn ardaloedd gwledig lle y mae costau tir yn uchel.

10(e)(iii) Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n paratoi llyfryn esboniadol ar Gymorth Prynu, a fydd ar gael yn ddwyieithog i ddarpar-ymgeiswyr. Disgwylir i'r llyfryn gael ei gyhoeddi cyn diwedd 2002. Bydd copïau yn cael eu hanfon at bob Awdurdod Lleol i'w dosbarthu i bob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gweithredu'r cynllun.

**Cydymffurfio**

11. Gall y cynlluniau i gynorthwyo tai fforddiadwy gael cymorth o dan amrywiaeth o swyddogaethau Tai sydd wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad. Mae'r rhain wedi'u dirprwyo i'r Gweinidog dros Gyllid a Chymunedau. Nid oes unrhyw faterion rheoleiddio na phriodoldeb. Ceir yr adnoddau ariannol i gynorthwyo'r cynlluniau o fewn y cynlluniau gwariant presennol.

**Themâu trawsbynciol**

12. Mae cefnogi tai fforddiadwy a chynaliadwyedd cymunedol mewn ardaloedd gwledig a threfol yn dangos y cysylltiad rhwng polisïau Llywodraeth y Cynulliad o ran tai, pobl a'u diwylliant.

**Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor Pwnc**

13. Nodi a chymeradwyo'r camau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd ym maes tai, sy'n cefnogi'r iaith Gymraeg.

**Man Cyswllt**

Y Gangen Tai Fforddiadwy

Y Gyfarwyddiaeth Dai (est 3898)